

Ffynonellau Cymorth Ariannol a Gwybodaeth am Ofal Preswyl

Diweddarwyd: Gorffennaf 2011

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn nodi ac yn cyfeirio at ffynonellau cymorth ariannol a gwybodaeth am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â Gofal Preswyl.

Nid yw'n rhoi eglurhad llawn ar y gyfraith ynglŷn â gofal preswyl; efallai y bydd angen cyngor pellach ar unigolion.

Gwybodaeth gefndir

Wrth i bobl heneiddio mae'n bosibl y bydd angen cymorth arnynt i wneud tasgau o ddydd i ddydd. Os felly, gall adran gwasanaethau cymdeithasol eu hawdurdod lleol asesu eu hanghenion ac o bosibl ddarparu gwasanaethau i'w helpu i ymdopi gartref. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr asesiad yn canfod mai cartref gofal yw'r lle gorau i ddiwallu anghenion rhywun. Mewn sefyllfa o'r fath, gellir darparu neu drefnu gofal preswyl gan awdurdod lleol neu gellir trefnu hyn yn breifat gan unigolion drwy wneud cytundeb â chartref gofal.

Mae modd cael rhagor o wybodaeth am yr asesiad yn y canllaw a ganlyn: **Assessment and services from your local council in Wales**, a gyhoeddwyd gan yr elusen Counsel and Care. Mae'r canllaw i'w weld yn yr adran **Assessment and Services** ar wefan yr elusen.

Cymorth gan Awdurdodau Lleol

Mae'r awdurdodau lleol yn darparu rhywfaint o ofal preswyl ond y sectorau preifat a gwirfoddol sy'n darparu'n rhan fwyaf ohono. Yn y naill achos a'r llall, mae'n debygol y codir taliadau a gyfrifir ar sail y rheolau yn yr **Arweiniad ar Godi Tâl am Lety Preswyl** gan Lywodraeth Cymru am ofal a drefnir gan awdurdodau lleol.

Bydd angen i'r unigolyn lenwi ffurflen asesiad ariannol er mwyn i'r cyngor allu asesu faint y bydd yn gallu ei dalu. Os bydd yn gwrthod llenwi'r ffurflen asesiad ariannol mae'n bosibl y bydd y cyngor yn codi'r ffioedd yn llawn arno. Asesir pob ymgeisydd fel unigolyn ac ni fydd angen i bartner neu ŵr/gwraig y sawl sy'n gwneud cais ddatgan ei incwm na'i gynilion.

Ystyrir incwm, cyfalaf (gan gynnwys gwerth unrhyw eiddo) a chynilion yn yr asesiad ariannol.

Fodd bynnag, ni fydd rhai mathau o incwm yn cael eu cynnwys yn yr asesiad, ac yn eu plith mae:

- Elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl;
- Atodiad symudedd (y Cynllun Pensiwn Rhyfel);
- Lwfans arbennig gweddwon rhyfel a elwir hefyd yn Daliadau Arbennig Gweddwon Rhyfel;
- Rhai taliadau elusenol;
- Diystyru Cynilion Pensiwn.

Wedi iddynt fod yn byw mewn cartref gofal am bedair wythnos, ni fydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Lwfans Gweini ac elfennau gofal y Lwfans Byw i'r Anabl.

Fel arfer, rhaid i unigolion fod â buddiant llesiannol mewn eiddo cyn y bydd y cyngor yn cynnwys yr eiddo hwnnw fel cyfalaf yn yr asesiad ariannol. Mae modd gweld gwybodaeth fanwl ynghylch hyn yn **adran 7, Treatment of Property** yn y ddogfen **Charging for**

Residential Accommodation Guide (CRAG).

Ffioedd Cartrefi Gofal: Gwybodaeth sylfaenol

Ar 11 Ebrill 2011 daeth *Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2011* i rym. Mae'r rheoliadau hyn yn cynyddu uchafswm y cyfalaf y gall unigolyn ei gael i £22,500 ac yn cynyddu'r lwfans treuliau personol wythnosol i £23.00.

Ffigurau'r flwyddyn ariannol 2011 -2012 a roir isod, a chaiff y ffigurau eu diweddarau bob blwyddyn.

Os oes gan unigolyn gynilion a chyfalaf sy'n llai o werth na £22,500 ni fydd disgwyl iddo ddefnyddio dim o'r arian hwnnw i helpu i dalu ffioedd gofal cartref.

Os oes gan unigolyn gynilion a chyfalaf sy'n fwy o werth na £22,500 disgwylir iddo dalu ei ffioedd gofal ei hun nes bod ei arian yn gostwng yn is na'r terfyn £22,500.

Disgwylir i'r unigolyn gyfrannu unrhyw incwm wythnosol, ar wahân i £23.00 y gellir ei gadw ar gyfer eitemau personol. Gelwir y swm hwn yn Lwfans Treuliau Personol. Fodd bynnag, gall y cyngor ganiatáu i'r unigolyn gadw mwy na £23.00 mewn rhai amgylchiadau. Hefyd caiff unigolion gadw hyd at £5.75 yr wythnos yn sgil Diystyru Cynilion Pensiwn.

Os bydd cyfalaf a chynilion unigolyn yn llai na £22,500 ond ei fod yn ennill mwy na ffioedd wythnosol y cartref gofal wedi'u cyfuno â'i Lwfans Treuliau Personol, bydd disgwyl iddo dalu ei ffioedd ei hun.

Os bydd angen i wŷr/gwraig neu bartner unigolyn symud i gartref gofal hefyd, rhaid i'r cyngor eu hasesu fel unigolion a chanddynt gynilion ar wahân. Os oes ganddynt gyfrif ar y cyd, bydd eu cynilion yn cael eu rhannu'n union at ddibenion yr asesiad.

Asesiad Cyfalaf

Mewn rhai achosion, gall y cyngor anwybyddu gwerth eiddo unigolyn yn yr asesiad ariannol cychwynnol, er enghraifft o dan yr amgylchiadau a ganlyn.

Bydd gwerth eiddo lle y mae preswlydd yn byw fel arfer yn cael ei anwybyddu pan fydd yr arhosiad mewn cartref gofal preswyl neu gartref nyrsio yn un dros dro. Hefyd anwybyddir gwerth eiddo lle y mae preswlydd yn byw fel arfer am 12 wythnos gyntaf unrhyw arhosiad parhaol.

Nid ystyrir gwerth cyn gartref preswlydd os bydd gŵr/gwraig, partner neu bartner sifil yn preswyllo yn y cartref hwnnw pan gynhelir yr asesiad. Ni fydd yr eiddo'n cael ei ystyried yn yr asesiad chwaith os bydd unrhyw un o'r pwyntiau a ganlyn yn berthnasol:

- Bod perthynas agos sy'n gymwys i wneud cais am fudd-dal anabledd neu sy'n 60 oed neu'n hŷn na hynny yn preswyllo yn yr eiddo ar y pryd.
- Bod gan yr unigolyn sy'n cael ei asesu gyfrifoldeb am blentyn o dan 16 oed.

Mae gan y cyngor ddisgresiwn i ddiystyru eiddo o asesiad o dan amgylchiadau eraill hefyd ond gall y cyngor adolygu hyn ar unrhyw adeg.

Cytundeb Cynllun Taliadau Gohiriedig

Caiff unigolion, sydd wedi dod yn breswylwyr mewn cartref gofal yn barhaol ac sydd â llai na £22,500 o gynilion ac sy'n berchen ar eiddo, ofyn am fenthyciad hirdymor yn lle gwerthu eu heiddo. Disgrifir benthyciad o'r fath fel cytundeb cynllun taliadau gohiriedig.

Mae'r cytundeb hwn yn golygu y bydd y cyngor yn gwneud taliadau i'r cartref gofal ar ran yr unigolyn fel benthyciad di-log tra bydd byw. Ymhen 56 diwrnod wedi i'r unigolyn farw, ychwanegir llog ar y gyfradd chwyddiant gyfredol, yna bydd cyfanswm y benthyciad yn cael ei dynnu o ystâd y person ymadawedig.

Os bydd y cyngor yn derbyn cais unigolyn am gytundeb cynllun taliadau gohiriedig, ni fydd hawl ganddo bellach i gael Gwarant Credyd Pensiwn.

Gofal Nyrsio

Os bydd asesiad wedi dangos bod angen gofal nyrsio ychwanegol ar unigolyn, telir am yr elfen hon gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Bydd faint o arian a geir am yr elfen hon yn ddibynnod ar Fwrdd Iechyd Lleol yr unigolyn.

Os bydd asesiad wedi dangos bod angen gofal nyrsio 24 awr y dydd ar yr unigolyn, mae'n bosibl y bydd ganddo hawl i fynnu bod y GIG yn talu ffioedd y cartref gofal yn llawn. Gelwir hyn yn Ofal Iechyd Parhaus y GIG.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael mewn canllaw a luniwyd gan yr elusen Counsel and Care sydd â'r teitl: **Care home fees - paying them in Wales (guide 72)** neu drwy gysylltu â'r Bwrdd Iechyd perthnasol.

Mae modd gweld y canllaw uchod yn yr adran **Advice and Information** ar wefan Counsel and Care.

Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Os bydd asesiad wedi dangos bod gan rywun hawl i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG, bydd ganddo hawl i fynnu bod y GIG yn talu costau ei gartref gofal yn llawn (gan gynnwys costau gofal nyrsio, gofal personol a llety).

Os bydd asesiad wedi dangos bod gan rywun anghenion gofal nyrsio, ond nad yw'n bodloni'r meini prawf sy'n angenrheidiol i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG, bydd ganddo hawl i fynnu bod y GIG yn talu elfen nyrsio ei gostau gofal.

Mae rhagor o wybodaeth am **Ofal Iechyd Parhaus y GIG** yn un o Hysbysiadau Hwylus Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad, ac yn y canllawiau a ganlyn:

- **Continuing Healthcare should the NHS be**

paying for your care? (guide 27)

- **Continuing Healthcare understanding the assessment process (guide 40)**

Mae modd gweld y canllawiau uchod yn yr adran **Advice and Information** ar wefan yr elusen Counsel and Care.

Ariannu Gofal Preswyl yn Breifat

Mae gan unigolion sydd â chyfalaf neu gynilion dros £22,500 hawl er hynny i gael asesiad o'u hanghenion gofal gan eu cyngor lleol.

Gall unigolion sy'n bwriadu talu eu ffioedd eu hunain drefnu unrhyw ofal sydd ei angen arnynt heb i'w cyngor lleol ymwneud dim â hynny, ond byddai angen i'r unigolyn dalu cost lawn y gofal a ddarperir.

Os yw'r unigolyn yn bwriadu talu ei ffioedd ei hun, mae ganddo hawl er hynny i ofyn am help gan ei gyngor lleol pan fydd yn ceisio dod o hyd i gartref gofal addas a gall y cyngor helpu i wneud yr holl drefniadau angenrheidiol os nad oes modd i'r unigolyn wneud hyn ei hun.

Os oes gan unigolyn ddigon o arian i dalu ei ffioedd ei hun am gyfnod byr yn unig, dylai ofyn am asesiad ariannol cyn ymrwymo i gartref gofal. Mae'n bosibl na fydd y cyngor yn talu'r ffioedd yn llawn os byddant yn fwy na'r hyn a delir gan y cyngor fel arfer.

Os bydd cyfalaf unigolyn yn gostwng yn is na £22,500 tra bydd mewn gofal, yna bydd ganddo hawl i gael cymorth ariannol a dylai ofyn ar unwaith am asesiad ariannol gan y cyngor lleol. Os bydd unigolyn yn dal i dalu ffioedd ar ôl i'w gyfalaf neu ei gynilion ostwng yn is na £22,500, ac mai'r cyngor sydd ar fai am hynny, mae'n bosibl y bydd gan yr unigolyn hawl i hawlio'r arian yn ôl.

Ceir rhestr isod o'r sefydliadau a'r cynghorwyr ariannol a all gynnig gwybodaeth a chyngor i unigolion a

theuluoedd ynghylch ariannu gofal preswyl yn breifat a rheoli eu harian yn effeithiol i wneud y gorau ohono ar gyfer y dyfodol.

- **Gwasanaeth Cyngori ar Ariannu Gofal Saga**
- **Asiantaeth Ffioedd Cartrefi Nyrsio**
- **Eldercare**
- **unbiased.co.uk**
- **Moneymadeclear**

Mae esboniad manylach ar y sefydliadau hyn ar gael isod yn yr adran Ariannu, Gwybodaeth a Chyngor.

Dewis Cartref Gofal

Gall yr elusen Elderly Accommodation Counsel ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) helpu unigolion i ddod o hyd i gartrefi gofal yn eu hardal eu hunain.

- **Elderly Accommodation Counsel**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)**

Mae'r elusen Counsel and Care wedi llunio canllaw sydd â'r teitl **Care Homes - what to look for (guide 19)** i geisio helpu unigolion i ddewis cartref gofal addas. Mae'r canllaw ar gael yn yr adran **Advice and Information** ar wefan Counsel and Care.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllaw sy'n amlygu'r wybodaeth allweddol y mae ei hangen ar unigolion cyn penderfynu symud i ofal preswyl. Teitl y canllaw hwn yw **Meddwl am Gartref Gofal? canllaw i'r hyn y mae angen i chi ei wybod** ac mae modd ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ariannu, Gwybodaeth a Chyngor

Mae'r sefydliadau cyhoeddus ac elusennol a ganlyn yn ceisio rhoi gwybodaeth am reoli arian a chanllawiau a chyngor ynghylch gofal preswyl i unigolion.

Gan ddibynnu ar amgylchiadau personol unigolion, mae'n bosibl y bydd arnynt angen cyngor a chanllawiau pellach gan sefydliad nad ydyw wedi'i nodi ar y rhestr yn y canllaw hwn.

Counsel and Care

Elusen genedlaethol sy'n gweithio gyda phobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr i'w galluogi i gael y gofal a'r cymorth gorau sydd ar gael iddynt yw **Counsel and Care**. Gall roi cyngor ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gofal yn y gymuned, gan gynnwys dod o hyd i wasanaethau gofal a thalu amdanynt. Mae Counsel and Care wedi llunio canllaw sydd â'r teitl: **Care Home Fees: Paying them in Wales**. Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am systemau ariannu sydd ar gael i bobl sydd angen byw mewn cartref gofal yng Nghymru.

Age Cymru

Age Cymru yw'r brif elusen ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae'n darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor cyfrinachol a diduedd am ddim i unigolion ar amrywiaeth o faterion. Mae'r materion hynny'n cynnwys helpu unigolion i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl i'w gael, hybu byw'n iach, ymwybyddiaeth o oedran a chartrefi gofal.

Mae modd gweld gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr adran 'Care Homes' sydd ar wefan y mudiad a thaflen wybodaeth a luniwyd gan Age Cymru, sydd â'r teitl *Paying for permanent residential care in Wales* drwy ddilyn y lincs a ganlyn.

- **Care Homes**

■ Paying for permanent residential care in Wales

Mae gan Age Cymru linell gynghori y gellir cysylltu â hi drwy ffonio 0800 169 6565.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** yn wasanaeth newydd trwy'r Deyrnas Unedig st'n cynnig cyngor diduedd, rhad ac am ddim i helpu pawb i reoli eu harian yn well.

Gellid cysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar 0300 500 5000 neu drwy ddanfon ebost at: enquiries@moneyadvice.service.org.uk

Mae'r sefydliadau masnachol a ganlyn yn ceisio darparu gwybodaeth am reoli arian a chynghori a chanllawiau ynghylch gofal preswyl i unigolion. Nid yw bod y sefydliadau hyn yn cael eu cynnwys yn y ddogfen hon yn awgrymu ein bod yn cymeradwyo'u gwasanaethau a'u cynnyrch.

Gwasanaeth Cynghori ar Ariannu Gofal Saga

Mae gan gwmni Cyllid Personol Saga wasanaeth cynghori ar ariannu gofal (**care funding advice service**) sy'n ceisio helpu unigolion i ystyried y dewisiadau sydd ar gael iddynt o ran talu am ofal. Mae ganddynt dîm annibynnol o gynghorwyr ariannol sy'n arbenigo mewn rhoi cyngor ar ariannu gofal a helpu pobl i ddewis y math cywir o ofal sy'n briodol i'w sefyllfa hwy.

Gellir cysylltu â Thîm Cynghori ar Ariannu Gofal Saga drwy ffonio 0800 096 8703 neu drwy anfon neges e-bost at: care.enquiries@saga.co.uk.

Asiantaeth Ffioedd Cartrefi Nyrsio

Mae'r **Asiantaeth Ffioedd Cartrefi Nyrsio (NHFA)** yn rhoi cyngor i unigolion nad oes ganddynt fawr ddim cyfalaf, neu ddim cyfalaf o gwbl, ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys hawliau i gael gwasanaethau gofal, gweithdrefnau codi tâl awdurdodau lleol a budd-daliadau.

Mae gan yr asiantaeth gynghorwyr arbenigol ar ffioedd gofal a gallant helpu unigolion a theuluoedd i ystyried yr hyn sydd ar gael iddynt hwy yn ariannol.

Gall unigolion gael cyngor drwy gwblhau ffurflen gais yr asiantaeth ar y wefan, **Care Fees Funding Advice – Application form** neu drwy gysylltu â Llinell Cyngor Gofal yr asiantaeth ar y rhif ffôn 0800 99 88 33.

Eldercare

Mae **Eldercare** yn darparu cefnogaeth ledled y DU ac yn ceisio rhoi gwybodaeth, cyngor ariannol ac atebion posibl ynglŷn â thalu am ofal i anwyliaid.

Gellir cysylltu ag Eldercare ar y rhif ffôn 0800 082 1155 neu drwy anfon neges e-bost at: advice@eldercaregroup.co.uk.

unbiased.co.uk

Mae **unbiased.co.uk** yn ceisio helpu unigolion i ddod o hyd i gynghorwyr proffesiynol ar gyfer amrywiaeth o anghenion gwahanol. Mae hyn yn cynnwys cynghorwyr ariannol annibynnol a all helpu unigolion i gynllunio ar gyfer eu dyfodol ac i wneud y gorau o'u harian.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: www.unbiased.co.uk/